# 5. Yr adroddiad blynyddol a chyfarfodydd â’r rhieni

Mae’r adran hon yn ymdrin â chyfrifoldeb y corff llywodraethu i:

- gynhyrchu adroddiad blynyddol;
- cynnal hyd at dri chyfarfod y flwyddyn â rhieni ar ôl cael ei ddeisebu.

### Cefndir

1. Mae’n ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gynhyrchu adroddiad bob blwyddyn ar ei waith yn ystod y flwyddyn academaidd. Hefyd, mae’n ofynnol i gorff llywodraethu, yn amodol ar eithriadau penodol, gynnal cyfarfod ar gyfer rhieni i drafod yr adroddiad blynyddol.

### Adroddiad blynyddol y llywodraethwyr

2. Mae’n rhwymedigaeth statudol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gynhyrchu adroddiad blynyddol.

3. Mae’n rhaid i’r adroddiad o leiaf gynnwys gwybodaeth benodol fel y nodir ym mhennod 6 y canllaw hwn sef ‘Darparu Gwybodaeth’ ac Atodlen 2 i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011. Hefyd gall yr adroddiad gynnwys gwybodaeth arall y mae’r corff llywodraethu’n ystyried ei bod yn wybodaeth berthnasol.

4. Yn ogystal, mae gan y corff llywodraethu’r cyfle i baratoi adroddiad cryno, ac mae cynnwys sylfaenol hwn hefyd wedi’i ragnodi yn y rheoliadau.

5. Mae’n rhaid i’r corff llywodraethu o leiaf ddosbarthu copi o’r adroddiad cryno i’r holl rieni a’u hysbysu bod copi o’r adroddiad llawn ar gael iddynt os ydynt am ei dderbyn.

6. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw pennu’r iaith neu’r ieithoedd a ffurf yr adroddiad, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan yr ALl.

7. Nid oes adeg benodol o’r flwyddyn ar gyfer cyhoeddi’r adroddiad blynyddol, ond anogir cyrff llywodraethu i gyhoeddi eu hadroddiadau yn ystod tymor yr hydref.

8. Cyfrifoldeb corfforaethol y corff llywodraethu yw ysgrifennu’r adroddiad blynyddol ac ni ddylai’r pennaeth orfod gwneud hyn ar ei ben ei hun. Yn aml, bydd corff llywodraethu yn sefydlu gweithgor yn cynnwys rhai llywodraethwyr, er mwyn paratoi drafft i’w ystyried mewn cyfarfod. Mae hwn yn ymarfer defnyddiol ac yn cynorthwyo i rannu’r llwyth gwaith tra’n sicrhau ‘perchnogaeth’.

## Cyfarfodydd â rhieni

9. O dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, caiff rhieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol â chorff llywodraethu eu hysgol. Mae hwn yn disodli’r gofyniad blaenorol a oedd yn gofyn i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol ar gyfer rhieni, ond gall y corff llywodraethu barhau i wneud hyn os dymunant.

10. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gynnal cyfarfod os bydd yn cael ei ddeisebu gan rieni disgyblion sydd wedi’u cofrestru yn yr ysgol, yn gofyn am gyfarfod ac os bydd yn fodlon bod pob un o’r pedwar amod canlynol wedi eu bodloni:

    - Bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion nifer gofynnol o rieni disgyblion sydd wedi’u cofrestru yn yr ysgol (ba un bynnag sydd isaf o rieni 10% o’r disgyblion sydd wedi’u cofrestru, neu rieni 30 o ddisgyblion sydd wedi’u cofrestru). Dylid cyfrif nifer y disgyblion sydd wedi’u cofrestru yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ar y diwrnod y derbynnir y ddeiseb.

    - Bod y cyfarfod y gofynnir amdano yn cael ei gynnal at ddibenion trafod mater sy’n ymwneud â’r ysgol.

    - Wrth drefnu cyfarfod, dylid sicrhau nad oes mwy na thri chyfarfod yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol y derbynnir y ddeiseb.

    - Bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol, gan fod yn rhaid cynnal y cyfarfod cyn diwedd cyfnod o 25 o ddiwrnodau. Mae’r cyfnod o 25 o ddiwrnodau:
        - yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod y derbynnir y ddeiseb
        - yn cynnwys diwrnodau ysgol yn unig.

    - Os bydd yn rhaid cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod o 25 o ddiwrnodau, ond cyn y diwrnod y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal, mae’r cyfnod o 25 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd y cyfarfod arall.

11. Rhaid i’r corff llywodraethu, cyn gynted ag y bydd yn rhesymol iddo allu gwneud hynny ar ôl iddo dderbyn deiseb sy’n ei gwneud yn ofynnol cynnal cyfarfod, roi gwybod am ddyddiad y cyfarfod a’r mater a fydd yn cael ei drafod, yn ysgrifenedig, i holl rieni’r disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol.

12. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni o dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gyrff llywodraethu roi sylw i'r canllawiau hyn.

## Presenoldeb

13. Rhaid i holl rieni disgyblion yr ysgol gael hawl i fynychu’r cyfarfod. Mae gan y pennaeth hefyd yr hawl i fynychu, waeth a yw’n llywodraethwr neu beidio. Gall y corff llywodraethu ddewis gwahodd pobl eraill i fynychu hefyd.

## Diben y cyfarfodydd

14. Diben y cyfarfodydd fydd trafod materion sy’n ymwneud â’r ysgol; nid ddylid trafod cynnydd na chyrhaeddiad disgyblion unigol nac unrhyw gŵyn yn erbyn aelod o staff neu’r corff llywodraethu. Mae’r trefniadau hyn yn golygu bod gan rieni hawl i ofyn am gynnal cyfarfod am faterion sy’n destun pryder penodol iddynt, yn lle bod corff llywodraethu’n gorfod cynnal cyfarfod blynyddol ar gyfer rhieni. Caiff y rhieni ymarfer yr hawl hwn hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol.

## Cynnal a chofnodi cyfarfodydd

15. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw cynllunio a chynnal cyfarfodydd â rhieni. Os bydd corff llywodraethu yn cynnal cyfarfod â rhieni, rhaid iddo gofnodi’r wybodaeth ganlynol yn ei adroddiad blynyddol:

    (a) dyddiad y cyfarfod;
    (b) lleoliad y cyfarfod;
    (c) y rhesymau a roddwyd gan rieni’r disgyblion sydd wedi’u’ cofrestru yn yr ysgol dros ddeisebu am gynnal cyfarfod;
    (d) enwau’r canlynol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod -
    (i) aelodau’r corff llywodraethu;
    (ii) aelodau staff yr ysgol;
    (iii) cynrychiolwyr o’r awdurdod lleol;
    (iv) enw unrhyw berson arall heblaw rhiant disgybl sydd wedi’u gofrestru ac nad oedd yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel aelod sy’n cynrychiolchi’r rhieni ar y corff llywodraethu;
    (e) nifer rhieni’r disgyblion sydd wedi’u cofrestru yn yr ysgol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod;
    (f) disgrifiad cryno o’r materion a drafodwyd yn y cyfarfod;
    (g) disgrifiad cryno o’r camau gweithredu, os oedd yna rai, yr oedd y corff llywodraethu wedi penderfynu eu cymryd yn sgil y materion a drafodwyd yn y
    cyfarfod;
    (h) disgrifiad cryno o ganlyniadau’r camau (os oedd yna rai) a gymerwyd gan y corff llywodraethu, yn sgil y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

    Os bydd corff llywodraethu wedi derbyn deiseb i gynnal cyfarfod â rhieni, ond na chynhaliwyd cyfarfod, rhaid iddo gynnwys yn ei adroddiad blynyddol:

(a) ddatganiad byr sy’n nodi hynny;
(b) y rheswm a roddwyd gan y rhieni bod angen cynnal cyfarfod;
(c) y rheswm pam na chynhaliwyd cyfarfod.

Os na fydd corff llywodraethu wedi cynnal cyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol, rhaid iddo gynnwys datganiad sy’n nodi hynny yn ei adroddiad blynyddol.

16. Efallai yr hoffai'r corff llywodraethu roi gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod os bydd mwyafrif y rhieni o blaid bwrw ymlaen ag unrhyw un o'r materion a drafodwyd. Gallai'r weithdrefn amlinellu'r hyn a fyddai'n digwydd pan fydd corff llywodraethu yn penderfynu bwrw ymlaen neu beidio â bwrw ymlaen ag unrhyw un o'r materion hynny.

## Y gyfraith

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011